# Adroddiad Blynyddol

# Annual Report

14 15

Grŵp Llandrillo Menai

# Cynnwys
# Contents


| | | |
|---|---|---|
| 04 | Rhagair y Cadeirydd | Chair's Foreword |
| 06 | Neges gan y Prif Weithredwr | Message from the Chief Executive Officer |
| 08 | Y Cynnydd a wnaed o ran y Nodau Strategol | Progress towards Strategic Goals |
| 13 | Llwyddiannau a Chyflawniadau | Successes & Achievements |
| 20 | Ffeithiau, Ystadegau a Chyllid | Facts, Figures & Finance |


# Aelodau'r Bwrdd
# Board Members

Dr Roy Bichan
(Cadeirydd/Chair)

Dr Griff Jones
(Is-Gadeirydd/Vice Chair)

Mr John Bellis

Mr Andy Billcliff

Mr Glyn Catley MBE

Mr Dilwyn Evans

Mrs Helen Halpin

Dr Ann Hynes

Mr Chris Jackson OBE

Mr Glyn Jones OBE

Mrs Mair Jones OBE

Cyng / Cllr Wyn Jones

Mr Peter Lavin

Mrs Shân Oliver

Mrs Sara Pattinson

Mr Hedd Pugh

Mr John Pierce-Williams

Cyng / Cllr Gareth Thomas

Mr Alun Thomas


Mr David Williams MBE

Mr Harri Fôn Williams

Toby Prosser YH/JP - Swyddog Llywodraethu'r Grŵp
Grŵp Governance Officer



# Lleoliadau'r Campysau
# Campus Locations




## Allwedd
## Key

- **Campysau Coleg Llandrillo** Coleg Llandrillo Campuses
- **Campysau Coleg Menai** Coleg Menai Campuses
- **Campysau Coleg Meirion-Dwyfor** Coleg Meirion-Dwyfor Campuses

## Cenhadaeth

**Ysbrydoli llwyddiant drwy ddarparu addysg a hyfforddiant ardderchog.**

## Mission

**Inspiring success by providing excellent education and training.**

## Ein Gwerthoedd

**Proffesiynoldeb**
**Arloesedd**
**Rhagoriaeth a Chydraddoldeb**

Ein nod yw sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cael eu trin â pharch a'n bod yn rhoi iddynt y sgiliau a'r nodweddion sy'n angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd.

## Our Values

**Equity**
**Quality**
**Innovation**
**Professionalism**

Our aim is to ensure that all our learners are treated with respect and that we equip them with the skills and qualities to succeed in life.

# Rhagair y Cadeirydd
# Chair’s Foreword

**Cyflawnodd Grŵp Llandrillo Menai lawer mewn blwyddyn, er i doriadau ariannol ac effaith costau cynyddol, a olygodd £3.5 miliwn yn llai o refeniw, barhau i herio ein Colegau, y Bwrdd a’r Prif Weithredwr. Parhawn i addasu a siapio’r sefydliad er mwyn mynd i’r afael â’n hamgylchedd economaidd newydd, gan ddal ati i gynnal ansawdd ein darpariaeth mewn hinsawdd o newid ac ansicrwydd mawr.**

Ymhlith y datblygiadau, newidiwyd y fethodoleg gyllido a strwythur y cwricwlwm yn sylweddol; cyflwynwyd Rhaglenni Dysgu, gwnaed newidiadau i gymhwyster Bagloriaeth Cymru, cyflwynwyd cyfres TGAU newydd sbon ac ailwampiwyd y trefniadau mewn perthynas â sgiliau hanfodol. Bu’n rhaid i’n staff gweithgar ac ymroddedig ymdopi â hyn i gyd ar adeg o gyfyngiadau ariannol ac ansicrwydd. Yn hyn o beth, rhaid canmol eu hymdrechion a’u cyflawniadau’n fawr.

Er gwaethaf y cefndir llwm, a ninnau wedi cymryd pob cam priodol i reoli’r gwariant, mae llawer o bethau cadarnhaol i sôn amdanynt. Sicrhaodd y Grŵp warged gweithredol iach, gan agor Canolfan Brifysgol, sydd bellach wedi ennill ei phlwyf, yn Llandrillo. Yno, gall ein myfyrwyr Addysg Uwch a’n myfyrwyr ôl-radd ennill “graddau ar garreg y drws” heb symud i ffwrdd, yn rhydd o’r hualau economaidd a gysylltir â byw oddi cartref.

**Grŵp Llandrillo Menai has achieved much in a year, despite funding cuts and the impact of rising costs continuously challenging our Colleges, the Board and Executive to the tune of £3.5 million in lost revenue. The organisation continues to be adapted and shaped to address our new economic environment, whilst sustaining the quality of our provision in a climate of great change and uncertainty.**

Developments have included a wholesale change in funding methodology and curriculum structure in the shape of Programmes for Learning, changes to the Welsh Baccalaureate qualification and a suite of brand new GCSEs and essential skills arrangements. Our hard-working and dedicated staff have had to cope with all of this in a climate of restraint and uncertainty. Their efforts and achievements in this regard are to be wholly applauded.

Despite the austere backdrop, having taken all appropriate measures to control expenditure, there are many positives to report. The Grŵp has returned a healthy operating surplus, having delivered the now established University Centre at Llandrillo (the UCCL), which allows our Higher Education and Postgraduate students to gain “degrees on the doorstep” whilst at home, free from the economic burdens associated with living away.







Dr Roy Bichan

**Cadeirydd**
**Chair**

Rydym wedi cwblhau canolfan Adeiladu a Pheirianneg wych ar y Marian Mawr yn Nolgellau. Rydym yn parhau'n benderfynol o fynd ar drywydd ffrydiau cyllido newydd o Ewrop er mwyn cefnogi prentisiaethau, yr hyfforddiant a'r dysgu yn y tymor canol. Rydym hefyd, ynghyd â Horizon, Lockheed Martin a Hitachi GE, yn chwarae rhan lawn ym mhrosiect niwclear Wylfa Newydd, a chredwn fod hyn yn gyfle pwysig i gefnogi a datblygu gweithrediadau arbenigol yn Llangefni. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi bod £2.3 miliwn o gyllid ychwanegol ar gael ar gyfer gwaith yr Ynys Ynni, ynghyd â £5m o gyllid cyfalaf i helpu cyllido cyfleuster peirianneg o'r radd flaenaf ar y safle.

Cododd cyfraddau llwyddo'r myfyrwyr i 87%. Cadarnhaodd arolwg cenedlaethol Llais y Dysgwr fod ein myfyrwyr o'r farn bod y Grŵp yn parhau i fod y gorau yng Nghymru. Rwy'n hynod falch fod ein contract dysgu seiliedig ar waith, a oedd eisoes yn werth £12 miliwn, wedi cynyddu £1.8 miliwn, a bod ansawdd y ddarpariaeth yn parhau ymhlith y gorau yng Nghymru.

Bu'n bleser bod yn Gadeirydd a pharhau i hwyluso ymdrechion y Grŵp yn 2014-15. Rwy'n ddiolchgar i aelodau'r Bwrdd am eu cyngor doeth a'u hymrwymiad parhaus i'n myfyrwyr ac am ymateb i anghenion yr economi leol.

We have completed a superb new Construction and Engineering hub at Marian Mawr in Dolgellau. We remain committed to seeking new funding streams from Europe to support apprenticeships, training and learning in the mid-term. We are also fully engaged with the Wylfa Newydd Nuclear Project with Horizon, Lockheed Martin and Hitachi GE, and consider this a significant opportunity for specialist operations support and development in Llangefni. The Welsh Government have already announced £2.3 million in extra funding for Energy Island work, and £5m in capital funding support to help finance an exciting new state-of-the-art engineering facility on site.


Student success rates have risen to 87%. The national Learner Voice survey confirmed the Grŵp as still being the best in Wales from our students' perspective. I am delighted that our already substantial £12 million work-based learning contract received a £1.8 million increase, with quality remaining amongst the very best in Wales.

It has been a pleasure to be Chairman and to continue to facilitate the Grŵp's endeavours in 2014-15. I am grateful to the Board for their wise counsel, sustained commitment to our students, and in responding to the needs of our local economy.



# Neges gan y Prif Weithredwr
# Message from the Chief Executive Officer





**Glyn Jones OBE**

**Prif Weithredwr**
**Chief Executive Officer**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad blynyddol hwn am y flwyddyn 2014-15. Daliodd Grŵp Llandrillo, yn ogystal â gweddill y Sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru, i fod dan bwysau ariannol o ganlyniad i fesurau darbodus Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Cafodd y setliad ariannol is a'r cynnydd parhaus mewn cyfraniadau pensiwn a chostau cyfleustodau effaith negyddol o £3.5 miliwn ar y Grŵp yn y flwyddyn sydd dan sylw.

Er gwaethaf y pwysau uchod, rwy'n falch o gofnodi yma bod y Grŵp wedi sicrhau gwarged o bron i £1.5 miliwn ar y gyllideb a bod canlyniadau'r myfyrwyr wedi gwella eto nes bod eu cyfraddau llwyddiant yn 87% ar draws y ddarpariaeth AB. Mae hwn yn ganlyniad arbennig o galonogol a diolchaf i'r tîm o staff a rheolwyr ymroddgar a gweithgar sydd wedi gwneud y llwyddiant hwn yn bosibl er gwaetha'r amgylchiadau.

2014-15 oedd y flwyddyn gyntaf i'r tîm rheoli gydweithio yn dilyn yr ad-drefnu. Yn ystod yr ad-drefnu, dilëwyd ugain o swyddi rheoli, ond datblygwyd strwythur cydlynol a chyson a'n galluogodd i ganolbwyntio ar flaenoriaethau gweithredol, gan gysoni safonau a chydymffurfio mwy â pholisïau a blaenoriaethau.

Yn ystod y flwyddyn, lansiwyd gwefan newydd y Grŵp, gan ehangu ein presenoldeb digidol a darparu gwybodaeth fanwl i rai sy'n ymweld â'r wefan. Mae clipiau fideo 'You Tube' yn rhoi darlun go iawn o farn a phrofiadau dysgwyr ar amrywiol gampysau'r Grŵp.

Cyflawnodd myfyrwyr sawl camp nodedig yn ystod y flwyddyn, a sonnir am nifer ohonynt yn yr adroddiad hwn. Y gamp fwyaf nodedig, fodd bynnag, oedd llwyddiant un o fyfyrwyr Coleg Meirion-Dwyfor, Owain Jones, a gynrychiolodd Wledydd Prydain ym mhencampwriaeth fyd-eang WorldSkills yn Sao Paulo, Brasil. Cystadlodd Owain yn yr adran Gwaith Saer a daeth yn seithfed yn y byd, gan ennill medal rhagoriaeth am ei ymdrechion. Rhaid llongyfarch Owain yn ddiffuant, yn ogystal â Mike Taylor, Arweinydd Rhaglen CaMDA Dolgellau, a'i dîm o staff am gefnogi Owain.

I am pleased to present this annual report for the year 2014-15. Grŵp Llandrillo Menai, in common with the rest of the Further Education (FE) Sector in Wales, continued to come under financial pressure as a consequence of the UK Government's austerity measures. The reduced funding settlement and the continuing cost increases of pension contributions and utilities costs meant that the Grŵp had a negative impact of £3.5 million in the year in question.

Notwithstanding the above pressure, it is gratifying to record here that the Grŵp secured a budget surplus of nearly £1.5 million and further improved its student outcomes to a success rate of 87% over all of its FE provision. This is a particularly pleasing outturn and my thanks are due to a committed and hardworking team of staff and managers who have enabled this success against the odds.

2014-15 was the first year for the restructured management to work as a team. Management posts had been reduced by twenty in the restructure but a more coherent and consistent structure emerged, allowing focus on operational priorities, whilst also ensuring standard practice and greater compliance with policies and priorities.

The Grŵp's new website was launched during the year, extending our digital presence and providing site visitors with detailed information. 'You Tube' video clips provided a real insight into the views and experiences of learners at the Grŵp's various campuses.

There were several notable achievements by students during the course of the year and many of them are detailed in this report. Most notable, however, was the success of Coleg Meirion-Dwyfor student, Owain Jones, who represented the UK at the World Skills global championship in Sao Paulo, Brazil. Owain competed in the Carpentry section and was judged seventh in the world, achieving a medallion of excellence for his efforts. Sincere congratulations are due to Owain and to Mike Taylor, Programme Manager at CaMDA Dolgellau, and his staff team for their support of Owain.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, cymerwyd camau breision o ran datblygu'r Uwch Adweithydd Dŵr Berwedig newydd yn Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Bu staff y Grŵp, dan arweiniad Dr Ian Rees, Pennaeth Coleg Menai, yn meithrin perthynas waith agos â chwmnïau allweddol sy'n ymwneud â'r datblygiad. Rydym yn ddiolchgar am y cymorth ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'n hymdrechion. Sicrhawyd cyllid o £2.3 miliwn ar gyfer cynnig darpariaeth ychwanegol, codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu. Gwnaeth hyn hi'n haws i ni ddatblygu perthynas gadarn â Horizon (HNP) a Hitachi GE yn benodol, ac i lofnodi Cytundeb Cydweithio gyda Lockheed Martin er mwyn cynhyrchu deunyddiau hyfforddi.

Over the course of the last twelve months, the development of the new Advanced Boiling Water Reactor facility at Wylfa Newydd on Anglesey has developed apace. Grŵp staff, led by Dr Ian Rees, Principal of Coleg Menai, have been developing close working relationships with key companies involved in the development. We are grateful for the additional assistance granted by the Welsh Government in support of our efforts. £2.3 million of funding has been made available for additional provision, awareness raising and capacity building. This has facilitated the development of strong relationships with Horizon (HNP) and Hitachi GE in particular, and the signing of a Teaming Agreement to work together with Lockheed Martin on developing training materials.






Datblygiad arwyddocaol ar gampws Coleg Llandrillo yn Llandrillo-yn-Rhos oedd agor y Ganolfan Brifysgol newydd sydd, erbyn hyn, yn ganolbwynt ein darpariaeth Addysg Uwch. Yn ogystal, llwyddasom i ennill contract Dysgu Seiliedig ar Waith, gan sicrhau £1.8 miliwn o gyllid ychwanegol ar draws y Consortiwm a arweinir gan y Grŵp.

Bu'r Grŵp yn gweithio'n agos hefyd gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, sy'n cynnwys y chwe awdurdod lleol a geir yng Ngogledd Cymru. Nod y Bwrdd yw sicrhau dull integredig o fynd i'r afael â datblygiad economaidd, mewnfuddsoddi a chyflogaeth a sgiliau ledled y rhanbarth. Un o'r prif ddatblygiadau oedd cyfres o brosiectau refeniw Cronfa Gymdeithasol Ewrop er mwyn mynd i'r afael ag anghenion y rhanbarth o ran sgiliau ac ag ymddieithrio ymhlith yr ifanc. Disgwylir i'r prosiectau ddechrau yn ystod 2015-16 a byddant yn darparu cymorth ariannol derbyniol er mwyn i'r Grŵp weithio ym maes ymgysylltu â chyflogwyr ac adfywio cymunedau.

I gloi, rwy'n falch o nodi bod y Grŵp wedi llwyddo i wrthsefyll cyfnod ariannol anodd ac wedi parhau i ddatblygu ei adnoddau, gan sicrhau bod y myfyrwyr yn cael canlyniadau o'r radd flaenaf. Mae'r datblygiadau uchod hefyd yn debygol o ategu'r gwaith a wnawn gyda chyflogwyr, cymunedau a myfyrwyr yn y blynyddoedd sydd i ddod.

A significant development at the Coleg Llandrillo Rhos-on-Sea campus was the opening of the University Centre building, which is now the focus of our Higher Education provision. In addition, our Work-Based Learning contract tender was successful in securing a £1.8 million increase in funding across the Consortium led by the Grŵp.

The Grŵp has also been working closely with the North Wales Economic Ambition Board (NWEAB), which is a coalition of the six local authorities in North Wales. The aim of the NWEAB is to secure an integrated approach to economic development, inward investment and employment & skills across the region. A key development has been the development of a series of European Social Fund (ESF) revenue projects to support the skills needs of the region and to tackle youth disengagement. The projects are expected to commence in 2015-16 and will provide a welcome package of funding support for the Grŵp's work on employer engagement and community regeneration.

In conclusion, I am pleased to note that the Grŵp has withstood a difficult financial environment and continued to develop its resources and high quality results for its students. The developments detailed above are also likely to support our continued work with employers, communities and students in coming years.

# Y Cynnydd a wnaed o ran y Nodau Strategol:
# Progress towards Strategic Goals:



## 1 Sicrhau bod dysgwyr yn cael profiadau rhagorol a chanlyniadau cyson ym mhob un o golegau'r Grŵp.

## To achieve excellent learner experience and consistent outcomes in each of the Grŵp's member colleges.

Dyfarnwyd Medal am Ragoriaeth mewn Gwaith Saer i Owain Jones (21 oed), cyn-fyfyriwr o Goleg Meirion-Dwyfor, ym mhencampwriaethau byd-eang WorldSkills yn Sao Paulo, Brasil. Roedd yn un o ddim ond pedwar cystadleuydd o Gymru, a'r unig un o Ogledd Cymru, a ddewiswyd i fod yn aelod o Dîm y Deyrnas Unedig.

Cyhoeddwyd mai Bethan Turner, myfyriwr gradd yng Ngholeg Llandrillo, oedd enillydd y teitl 'Gweithiwr Cynnal Gofal Iechyd y Flwyddyn', gwobr genedlaethol a ddyfernir gan Goleg Nyrsio Brenhinol Cymru.

Former Coleg Meirion-Dwyfor student Owain Jones (21) was awarded a Medallion for Excellence in Carpentry at the WorldSkills global championships in Sao Paulo, Brazil. He was one of only four competitors from Wales selected for Team UK and the sole representative from North Wales.

Coleg Llandrillo degree student, Bethan Turner, was named the winner of the Royal College of Nursing 'Welsh Health Care Support Worker of the Year' national award.



## 2 Bod yn brif ddarparwr addysg a hyfforddiant dwyieithog ôl-16 yn Ewrop.

## To be the leading provider of bilingual post-16 education and training in Europe.




Cynigia colegau Grŵp Llandrillo Menai 'Docyn Iaith' i annog myfyrwyr i gyflwyno pedwar darn o'u gwaith cwrs yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan ddyfarnu gwobr o £100 y tymor ym mhob coleg. Ymhlith enillwyr y llynedd, roedd Emyr Court, myfyriwr ar y cwrs Chwaraeon Lefel 3 yng Ngholeg Llandrillo, Sam Elgan Williams sy'n astudio Rheoli Cefn Gwlad yng Ngholeg Meirion-Dwyfor a Dafydd Owen-Jones (yn y llun), myfyriwr Busnes yng Ngholeg Menai, a enillodd hefyd wobr am Ddwyieithrwydd yn Seremoni Gwobrwyo Cyflawnwyr y Coleg.

Grŵp Llandrillo Menai colleges offer the 'Tocyn Iaith' to encourage students to present four pieces of work in Welsh or bilingually as part of their coursework, with a £100 prize available each term at each College. Last year's winners included Emyr Court, a Level 3 Sport student at Coleg Llandrillo, Countryside Management student Sam Elgan Williams from Coleg Meirion-Dwyfor and Dafydd Owen-Jones (pictured), a Business student at Coleg Menai, who also won the Bilingualism award at the College's Achievers Awards Ceremony.

## Mae'n bleser gan y Grŵp adrodd ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyrraedd ei nodau strategol, fel y dengys yr enghreifftiau hyn.

## The Grŵp is pleased to report that significant progress towards its strategic goals has been achieved, as these examples demonstrate.

3


### Buddsoddi yn ein staff ar bob lefel a'u galluogi i ddarparu gwasanaeth rhagorol.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd 7,343 cais i fynd i ddigwyddiadau datblygu staff; roedd 652 o'r rhain yn ddigwyddiadau allanol. Roedd saith aelod staff hefyd yn gweithio at radd Meistr.

### To invest in and enable our staff at all levels to provide an excellent service.

During the year, a total of 7,343 applications to attend internal and external staff development events were approved and completed; 652 of these were external events. Seven members of staff were also working towards their Masters degrees.

4



### Sicrhau bod gan ein dysgwyr y sgiliau hanfodol i'w harfogi ar gyfer dinasyddiaeth a bywyd gwaith cynhyrchiol.

### To ensure that our learners have the essential skills to equip them for citizenship and a productive working life.

Mae Grŵp Llandrillo Menai'n parhau i helpu lleihau arwahanu digidol yng Ngogledd Cymru drwy gynnal amrediad eang o ddosbarthiadau llythrennedd digidol y rhoddodd y cyflwynydd Matt Richards sylw iddynt mewn rhaglen ar y BBC. Yn ôl adroddiad diweddar yn y Guardian, nid oes gan oddeutu un o bob pedwar oedolyn yn y Deyrnas Unedig - tua 12 miliwn o bobl - sgiliau ar-lein sylfaenol.

Mae'r Grŵp hefyd yn cefnogi menter Llywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru. Cadarnhaodd Arolwg Cenedlaethol Cymru (2014-15) nad yw 19% o oedolion Cymru (18 oed a hŷn) yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn rheolaidd

Grŵp Llandrillo Menai is continuing to help reduce digital exclusion in North Wales by running an expansive range of digital literacy classes, which were highlighted in a BBC feature by presenter Matt Richards. Nearly one in four adults in the UK – around 12 million people – do not have basic online skills, according to a report published by The Guardian recently.

The Grŵp is also supporting the Welsh Government's initiative, Digital Communities Wales. The National Survey for Wales: 2014-15, confirmed that 19% of the Welsh adult population (aged 18 or over) do not regularly use the Internet.

5

### Datblygu cwricwlwm Addysg Bellach ac Addysg Uwch sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol a dyheadau a blaenoriaethau economaidd Cymru.

### To develop a Further Education and Higher Education curriculum which reflects local priorities and the economic aspirations and priorities of Wales.




Fis Mawrth 2015, agorwyd 'CaMDA', Canolfan Adeiladu a Pheirianneg werth £4.5 miliwn, ar gampws Coleg Meirion-Dwyfor yn Nolgellau. Bydd CaMDA'n darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf ym maes Adeiladu a Pheirianneg i ddysgwyr sy'n mynychu'r campws. Mae'r enw'n adlewyrchu swyddogaeth hanfodol y ganolfan o ran darparu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i adfywio sectorau sy'n allweddol i economi'r ardal, gan ganolbwyntio'n benodol ar ynni ac isadeiledd.

Mae Grŵp Llandrillo Menai wrthi hefyd yn ehangu ei ddarpariaeth Prentisiaethau Uwch. Fel rheol, mae Prentisiaethau Uwch ar Lefel 4 neu 5 ac felly'n gyfwerth â blwyddyn gyntaf neu ail flwyddyn cwrs gradd. Mae'r hyfforddiant lefel uwch hwn yn cynnig cyfle i rai sydd eisoes mewn gwaith i feithrin y sgiliau y mae arnynt eu hangen yn y gweithle neu i ddysgu sgiliau newydd a fydd yn eu helpu i symud ymlaen.

CaMDA, a new £4.5 million Construction and Engineering Centre at Coleg Meirion-Dwyfor's Dolgellau campus opened in March 2015. CaMDA will provide enhanced Construction and Engineering training for learners attending the campus. The name of the facility reflects its key role in providing the skills needed to regenerate key sectors in the regional economy, focussing especially on energy and infrastructure.

Grŵp Llandrillo Menai is also currently broadening its provision of Higher Apprenticeships. Higher Apprenticeships are usually Level 4 or 5 which is equivalent to the first or second year of an undergraduate degree. This advanced level training offers established employees an opportunity to develop skills they need within the workplace or develop new skills that will help them progress.

## 6 Cefnogi datblygiad economaidd Gogledd Cymru drwy gynnig gwasanaeth cynhwysfawr ac integredig sy'n ymgysylltu â chyflogwyr ac yn datblygu busnesau.

## To support the economic development of North Wales through a comprehensive and integrated employer engagement and business development service.

Sefydlwyd 'Busnes@LlandrilloMenai', gwasanaeth newydd Grŵp Llandrillo Menai i gyflogwyr, mewn brecwast busnes bywiog fis Mai.

Mae Busnes@LlandrilloMenai'n crynhoi amrediad o wasanaethau hyfforddi, gwasanaethau ymgynghorol a gwasanaethau cymorth sydd eisoes ar gael, a rhai ychwanegol, dan un pwynt mynediad clir. Mae dysgu yn y gweithle'n ganolog i'r gwasanaeth newydd ac mae darparu hyfforddiant i brentisiaid mewn partneriaeth â chyflogwyr yn rhan allweddol o hyn. Mae hyfforddiant dwys i fusnesau hefyd yn elfen bwysig yn y set hon o wasanaethau.

The new employer-facing service of Grŵp Llandrillo Menai, 'Busnes@LlandrilloMenai' was launched at a bustling business breakfast in May.

Busnes@LlandrilloMenai brings together a range of existing and enhanced training, advisory and support services in four main headings, under one clear entry point. Learning at work is at the heart of the new service and delivering apprenticeship training in partnership with employers is a key part of this. Intensive training for business is also a major component in this set of services.



## 7 Denu cymaint â phosibl o gyllid ac incwm gan Lywodraeth Cymru, ffynonellau Ewropeaidd, mentrau, recriwtio myfyrwyr o dramor, gweithgareddau masnachol a chaffael effeithlon.

Roedd 2014/15 yn flwyddyn olaf llawer o brosiectau Cronfa Strwythurol Ewrop y Grŵp a chynhyrchwyd £2m yn ystod y flwyddyn. Drwy gydol y flwyddyn, cyd-weithiodd staff Grŵp Llandrillo Menai â nifer o bartneriaid rhanbarthol er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer nifer o brosiectau ESF newydd. Gobeithir y cymeradwyir y rhain ddiwedd 2015.

Cynhyrchodd yr adran ryngwladol incwm o £370,000. Derbyniwyd contract gwerth dros £75,000 gan y British Council yng Ngwlad Thai a Swyddfa'r Cyngor Addysg Alwedigaethol (OVEC) yng Ngwlad Thai i ddarparu rhaglen reoli i uwch reolwyr. Mae'r gweithgaredd hwn yn parhau yn 15/16, gydag OVEC yn buddsoddi rhagor mewn ymweliadau a theithiau cyfnewid.

Cynhyrchodd Canolfan Arloesi Menai (CAM) incwm allanol sylweddol o £412,000 yn sgil gwaith masnachol a nifer uwch nag erioed o Bartneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth.

Denodd y Ganolfan Technoleg Bwyd yn Llangefni incwm o £770,000 gan y Rhaglen Ddatblygu Wledig ac yn sgil gwaith masnachol a wnaed yn y ganolfan ac ar safleoedd cyflogwyr.

## To maximise funding and income generation from Welsh Government, European sources, enterprise, international recruitment, commercial activities and efficient procurement.

2014/15 was the final year for many of the Grŵp's European Structural Fund projects and over the course of the year £2m was generated. Grŵp Llandrillo Menai staff worked with a number of regional partners throughout the year to secure funding for a number of new ESF projects, which it is hoped will be approved in late 2015.

The International department generated an income of £370,000. A contract with a value of over £75, 000 was awarded by the British Council Thailand and the Thai Office for Vocational Education Council (OVEC) for delivery of a management programme for senior managers. This activity continues into 15/16 with further investment from OVEC in visits and exchanges.

Substantial external income of £412,000 was generated by the Canolfan Arloesi Menai (CAM) through commercial work and a record number of Knowledge Transfer Partnerships (KTP).

The Food Technology Centre (FTC) at Llangefni attracted £770,000 of income from the Rural Development Programme (RDP) and commercial work both at the centre and on employer premises.

## 8 Cynnal a datblygu amgylcheddau dysgu cynaliadwy, sy'n ysbrydoli ac yn cynnwys uwch-dechnolegau.

Fis Medi 2014, agorwyd 'Y Ganolfan Brifysgol, Coleg Llandrillo' a gostiodd £4.5 miliwn, ar gampws Llandrillo-yn-Rhos.

Codwyd y Ganolfan Brifysgol mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor, ac mae wedi ennill gradd 'Rhagoriaeth' BREEAM am y dull cynaliadwy y cafodd ei dylunio a'i hadeiladu ac y caiff ei rhedeg. Darpara gyfleusterau o'r radd flaenaf, gan atgyfnerthu rôl Grŵp Llandrillo Menai fel un o brif ddarparwyr cyrsiau prifysgol yng Ngogledd Cymru. Yn yr adeilad pwrpasol, ceir yr offer TG a'r offer amlgyfrwng diweddaraf, ynghyd â chyfleusterau dysgu ac addysgu penigamp, gan gynnwys theatrau darlithio, ystafelloedd seminar, adnoddau llyfrgell a mannau astudio o'r radd flaenaf, i fyfyrwyr gradd y Grŵp.

## To maintain and develop sustainable and inspiring learning environments with a high technology specification.

The new £4.5 million University Centre at Coleg Llandrillo (UCCL) opened at the Rhos-on-Sea campus in September 2014.

The UCCL was built in partnership with Bangor University and has been awarded a 'BREEAM: Excellent' rating for its sustainable building design, construction and operation. It provides outstanding facilities and consolidates Grŵp Llandrillo Menai's role as a key provider of university courses in North Wales. The bespoke building is equipped with the latest IT and multimedia equipment, and includes state-of-the-art lecture theatres, seminar rooms, library resources and study areas to provide outstanding teaching and learning facilities for the Grŵp's degree students.

## 9 Ysgogi cydweithio a thrawsnewid, a bod yn ganolbwynt o ran gweithio mewn partneriaeth ym maes addysg a hyfforddiant ôl-14.

## To be a driving force for collaboration and transformation and a hub for partnership working in post-14 education and training.

Ar lefel strategol, mae uwch staff y Grŵp yn gwasanaethu ar nifer o grwpiau pwysig, gan gynnwys Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (a'i Is-grwpiau Cyflogaeth a Sgiliau), Parth Menter yr Ynys Ynni, Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chonsortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn.

Yn y grwpiau hyn, mae Grŵp Llandrillo Menai wedi chwarae rhan bwysig o ran llywio'r agenda cydweithio. Mae'r Grŵp hefyd wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu Broceriaeth Cyflogaeth a Sgiliau a fydd yn sicrhau bod gweithwyr â sgiliau addas ar gael ar gyfer y datblygiadau ar Ynys Môn.

Gweithiodd y tri choleg sy'n rhan o'r Grŵp mewn partneriaeth ag ysgolion ac Awdurdodau Lleol i wella profiadau addysgol disgyblion ysgol 14-19 oed. Yn 2013/14, elwodd nifer sylweddol o ddisgyblion ysgol 14-16 oed a 16-19 oed o'r addysg alwedigaethol a ddarparwyd gan dri choleg y Grŵp. Roedd y ddarpariaeth hon yn cynnwys profiadau galwedigaethol mewn meysydd fel Peirianneg, Adeiladu, Cyfryngau, TGCh, Arlwyo ac Amaethyddiaeth. Er i'r Grŵp ganolbwyntio'n bennaf ar brofiadau'r dysgwyr, chwaraeodd ran allweddol hefyd yn y trefniadau o ran sbarduno, cynllunio a chydlynu'r cyrsiau hyn.

On a strategic level, senior staff from the Grŵp sit on a number of important groupings, including the North Wales Economic Ambition Board (and its Employment and Skills Sub-Group), the Energy Island Enterprise Zone, Local Service Boards and the ESF funded Gwynedd and Ynys Môn Post-16 Education Consortium.

Within these groupings, Grŵp Llandrillo Menai has played an important part in driving the collaboration agenda. The Grŵp has also been driving the development of an Employment and Skills Brokerage that will ensure a suitably skilled workforce for the developments on Ynys Môn.

In Conwy and Denbighshire, the Grŵp worked in partnership with schools and Local Authorities to enhance the educational experiences of 14-19 pupils in schools. In 2013/14, a significant number of school pupils in both the 14-16 age range and the 16-19 age range benefited from vocational education provided by the Grŵp's three colleges. This provision included vocational experiences in areas such as Engineering, Construction, Media, ICT, Catering and Agriculture. While the main focus was on the experiences the learners received, the Grŵp was also a key player in the emerging arrangements for driving, planning and co-ordinating these courses.

## 10 Cefnogi adfywio economaidd yng nghymunedau Gogledd Cymru drwy gyfrwng rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau, sy'n ymwneud â chyflogadwyedd a sgiliau, i Oedolion yn y Gymuned.

## To support regeneration in North Wales' communities through a comprehensive programme of Adult & Community-based employability and skills activities.

Yn 2013/14, lansiwyd y prosiect Llwybrau Blaengar i Feithrin Cysylltiadau (PEP). Bwriad y prosiect oedd gwella'r cyfleoedd i bobl ifanc 19-24 oed sydd wedi ymddieithrio ledled siroedd Conwy a Dinbych.

Gan adeiladu ar y dystiolaeth a gafwyd o'r PEP, mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi cefnogi nifer o brosiectau rhanbarthol er mwyn adolygu ac atgyfnerthu'r trefniadau o ran meithrin cysylltiadau â rhai 16-24 oed sydd ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET).

Mewn cydweithrediad â'n partneriaid sy'n cynnwys awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, y Ganolfan Byd Gwaith a'r sector gwirfoddol, bydd Prosiect TRAC 16-24, gyda Grŵp Llandrillo Menai'n arwain ar ran y rhanbarth, yn darparu dull amlasiantaethol o sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth briodol i sicrhau'r sgiliau a'r cymwysterau sy'n angenrheidiol i gael gwaith parhaol. Mae hyn yn cynnwys diwallu'r galw am sgiliau yn y rhanbarth er mwyn sicrhau twf economaidd ledled y gogledd.

In 2013/14, the ESF funded Progressive Engagement Pathways (PEP) project was launched, aimed at improving the opportunities for disengaged young people aged 19-24 years across Conwy and Denbighshire.

Building on the evidence from PEP, The North Wales Economic Ambition Board has supported a number of regional projects to review and strengthen the arrangements to engage 16-24 year olds who are NEET (Not in Education, Employment or Training).

In collaboration with our partners, including local authorities, Betsi Cadwalader University Health Board, Job Centre Plus and the voluntary sector, the TRAC 16-24 Project, which will be led by Grŵp Llandrillo Menai on behalf of the region, will provide a multi-agency approach to ensure that young people gain the appropriate support in order to achieve the skills and qualifications required to enter sustained employment. This includes meeting the regional skills demand for economic growth across North Wales.

## 11



## Sicrhau amgylchedd gweithio iach, diogel a theg, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth a geir ymhlith ein staff a'n dysgwyr.

### To ensure a healthy, safe and equitable working environment, which reflects the diversity of our staff and learners.

Llwyddodd Grŵp Llandrillo Menai i gyrraedd a pharhau ar y lefel uchaf bosibl o ran safonau amgylcheddol ac agenda gwyrdd, gan dderbyn achrediad Lefel 5 y Ddraig Werdd am Reoli Amgylcheddol yn y tri choleg gan Groundwork Cymru. Mae'r Ddraig Werdd yn cydnabod rheoli amgylcheddol effeithiol, gan wobrwyo camau a gymerir i wella'r amgylchedd.

Daeth Llywyddion Undeb Myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai'n ail yn y categori 'Cyfleoedd i Fyfyrwyr' yng ngwobrau NUS Cymru. Rhoddwyd y wobr i gydnabod dull cynhwysol myfyrwyr LGBT ( Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol) y Grŵp o ymgysylltu ag asiantaethau lleol, rhanbarthol, a chenedlaethol er mwyn codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu oedolion ifainc.

Grŵp Llandrillo Menai has achieved and retained the highest level possible for its environmental standards and green agenda, after being awarded Groundwork Wales' Green Dragon Environmental Management Level 5 accreditation across all three colleges. Green Dragon recognises effective environmental management and rewards actions taken to achieve environmental improvements.

Grŵp Llandrillo Menai's Student Union Presidents were presented with runner-up awards in the category 'Student Opportunities' at the National Union of Students (NUS) Wales Awards. The inclusive approach employed by Coleg Menai's LGBT (lesbian, gay, bisexual, and transgender) students of engaging with local, regional and national agencies to promote awareness and understanding of the challenges facing young adults, was rewarded in the 'Student Opportunities' category.

## 12 Sicrhau proffil uchel a chadarnhaol o ran marchnata a chysylltiadau cyhoeddus, sy'n sail i dargedau recriwtio ac sy'n gwella enw da'r Grŵp yn y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

### To ensure a high profile and positive public relations and marketing profile, which underpins recruitment targets and enhances the Grŵp's reputation in the communities it serves.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, gwnaed gwaith helaeth ar wefan y Grŵp www.gllm.ac.uk.

Mae hyn yn cynnwys ychwanegu cyfleuster newydd i chwilio am gyrsiau ar hafan y wefan er mwyn i bobl allu chwilio am gyrsiau'n gynt ac yn haws. Yn ogystal, ychwanegwyd bywgraffiadau myfyrwyr, oriel luniau a rhagolygon o ran gyrfa o dan bob maes rhaglen ar y wefan.

Ffilmiwyd a golygwyd dros 40 o vox pops myfyrwyr dros gyfnod o 3 mis ledled campysau'r Grŵp. Nod y fideos yw rhoi rhagflas o fywyd coleg i ddarpar fyfyrwyr.

Bu'r Adran Farchnata'n gweithio'n galed hefyd i roi mwy o sylw i'r Grŵp ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod haf 2015, cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd hysbysebu ar Facebook i hyrwyddo AB ac AU ledled y Grŵp. Yn ogystal, sefydlwyd cyfrif Instagram ar gyfer y Grŵp er mwyn rhannu lluniau a gwybodaeth â'n cynulleidfa darged iau yn lleol.

Extensive work has been completed over the last 12 months on the Grŵp's website www.gllm.ac.uk.

This includes the addition of a new course search facility on the website's home page to make searching for courses quicker and easier. In addition, student biographies, image galleries and career prospects have been added under each programme area of the website.

Over 40 student vox pops were filmed and edited over the course of 3 months across all of the Grŵp's campuses. The videos aim to give prospective students a taste of college life.

The Marketing department have also worked hard to strengthen the Grŵp's social media presence. A number of Facebook advertising campaigns were carried out over Summer 2015 to promote FE and HE across the Grŵp. In addition, a new Instagram account was set up for the Grŵp as a means of sharing photos and information with some of our younger target audience within the local area.



# Llwyddiannau a Chyflawniadau
# Successes & Achievements





## WorldSkills

Enillodd myfyrwyr sy'n astudio Datblygu Gemau, Plastro a Chelfyddyd Ewinedd un fedal aur, dwy fedal arian ac un fedal efydd yn Sioe Sgiliau WorldSkills y Deyrnas Unedig 2014 a gynhaliwyd yn yr NEC yn Birmingham. Yn y diwedd, daeth y Grŵp yn bumed yng nghynghrair fedalau'r Deyrnas Unedig. Cafwyd llwyddiannau ychwanegol mewn sawl disgyblaeth yng nghystadlaethau Sgiliau Cymru.

Mewn cystadleuaeth ddygn, dyfarnwyd y fedal aur i MacAuley Jordan, o Goleg Llandrillo, yn y categori Datblygu Gemau. Llwyddodd i guro rhai o ddatblygwyr mwyaf talentog y Deyrnas Unedig. Enillodd myfyriwr o Goleg Menai, sef Kevin Jones sy'n dysgu yn y gweithle, fedal arian yn y categori Plastro ac enillodd Samantha Gumbley fedal arian yn y categori Celfyddyd Ewinedd. Sicrhaodd Harriet Gibson fedal arall i Goleg Llandrillo, gan ennill y wobr efydd yn y dosbarth Celfyddyd Ewinedd.

## WorldSkills

Games Development, Plastering and Nail Art students won a gold, 2 silvers and 1 bronze medal at the WorldSkills UK Skills Show 2014 at the NEC in Birmingham. The Grŵp eventually came 5th in the UK league table of medal winners. There were additional successes in numerous disciplines in Skills Competition Wales competitions.

Coleg Llandrillo's MacAuley Jordan was awarded the gold medal in the Games Development category against stiff opposition from some of the most talented developers in the UK. Coleg Menai work-based learning student, Kevin Jones and Coleg Llandrillo's Samantha Gumbley won silver medals in the Plastering and Nail Art categories respectively. Harriet Gibson gained another medal for Coleg Llandrillo after winning a bronze in the Nail Art classification.

## Llwyddiannau Prentisiaid

Enwyd Ross Kenyon, sy'n brentis gydag RWE, yn 'Brentis y Flwyddyn' mewn seremoni wobrwyo a drefnwyd gan RenewableUK.

Mewn seremoni wobrwyo a drefnwyd gan y consortiwm dysgu yn y gweithle sy'n cynnwys Grŵp Llandrillo Menai, Hyfforddiant Gogledd Cymru a Hyfforddiant Arfon Dwyfor, enillodd Llewelyn Edwards, prentis RWE yng Ngholeg Llandrillo, y wobr 'Prentis y Flwyddyn'.

Derbyniodd Nicole Evans, prentis arlwyo yng Ngwesty'r Anglesey Arms ym Mhorthaethwy, y wobr Dysgwr Hyfforddeiaeth y Flwyddyn (Ymgysylltu) yn seremoni Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2014.




## Apprenticeship Successes

RWE Apprentice Ross Kenyon was crowned 'Apprentice of the Year' at an awards ceremony organised by RenewableUK.

At an awards ceremony for Grŵp Llandrillo Menai's work-based learning consortium with North Wales Training and Arfon Dwyfor Training, Coleg Llandrillo's RWE apprentice, Llewelyn Edwards, won the 'Apprentice of the Year' award.

Nicole Evans, a catering apprentice at the Anglesey Arms Hotel in Menai Bridge, won the Traineeship Learner of the Year (Engagement) award at the Apprenticeship Awards Cymru 2014 ceremony.



## Gwobrau Arloesedd

Yng Ngwobrau Arloesedd CBAC, enillodd dau gyn-fyfyriwr wobrau. Enillodd Gwion Puw Jones y 3edd wobr yn y Gystadleuaeth Arloesi ac enillodd Morgan Mai Williams y wobr am y defnydd mwyaf arloesol o Ddylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur.

## Innovation Awards

At the WJEC Innovation Awards, two former students won awards. Gwion Puw Jones won 3rd prize in the Innovation Competition and Morgan Mai Williams was awarded the prize for the most innovative use of Computer Aided Design.





## Gwobrau Mentergarwch

Enillodd Emily Hesketh siec am £1,000 yn y categori “Gwobr Ysbrydoli Ieuenctid” newydd yn seremoni Gwobrau Mentrau Cymdeithasol Cymru 2104 a gynhaliwyd yng Nghanolfan Glasdir yn Llanrwst.

Cyhoeddwyd mai Penny Matthews, Cydlynydd Mentergarwch yng Ngholeg Llandrillo, oedd yn ail yn y categori Hyrwyddwyr Mentrau Addysg Bellach yn y Gynhadledd Ryngwladol i Addysgwyr ym maes Entrepreneuriaeth.

## Enterprise Awards

Business student Emily Hesketh won a cheque for £1,000 at the inaugural ‘Inspiring Youth Award’ category at the Social Enterprise Awards Wales 2014 ceremony at the Glasdir Centre in Llanrwst.

Coleg Llandrillo’s Enterprise Coordinator, Penny Matthews, was named runner-up in the NEEA Further Education Enterprise Champions award category at the International Entrepreneurship Educators’ Conference (IEEC).



## Gwobrau ym maes Technoleg Ddigidol

Yng Nghynhadledd a Seremoni Wobrwyo Technolegau E-Ddysgu Cymru, enillodd Emily Drennan, sy’n ddarlithydd Cyfrifiadura ar gampws Llandrillo-yn-Rhos, wobr am ddefnyddio technoleg ddigidol mewn modd creadigol ac arloesol. Enillodd adran Cymraeg i Oedolion y Grŵp hefyd wobr am ‘Gynnwys Digidol Gwreiddiol mewn Addysg Bellach’ am eu prosiect a’u gwefan ‘Clic Clic Cymraeg’ sy’n cynnig cefnogaeth ar-lein i rai sy’n dysgu’r Gymraeg.

## Digital Technology Awards

At the Welsh E-Learning Technologies Conference & Awards, Rhos campus Computing lecturer Emily Drennan won the ‘Innovation and Creativity through the use of Digital Technology Award’. The Welsh for Adults department won the ‘Original Digital Content (Further Education) Award’ for their on-line support for Welsh learners with their ‘Clic Clic Cymraeg’ project and website.





## Gwobr Beirianneg

Enillodd myfyrwyr sy'n astudio Peirianneg Fecanyddol yng Ngholeg Menai wobr Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol am waith a wnaethant i Reilffordd Llyn Padarn. Dyfernir y wobr gan Gynllun Addysg Beirianneg Cymru.

## Engineering Award

Mechanical Engineering students from Coleg Menai won The Institution of Mechanical Engineers award for their work for the Llanberis Lake Railway. The award is judged by the Engineering Education Scheme Wales.




## Urdd y Gosodwyr Brics

Enillodd Osian Flynn, a astudiodd ar gampws Llangefni, gystadleuaeth Urdd y Gosodwyr Brics 2015.

Mae hon yn gystadleuaeth sy'n cwmpasu holl wledydd Prydain a'i nod yw canfod y gosodwr brics mwyaf medrus.

## Guild of Bricklayers

Bricklayer Osian Flynn, who studied at the Llangefni Campus, won the Guild of Bricklayers 2015 Competition.

This is a UK Wide Competition to find the most skilled bricklayer in the UK.

## Llwyddiannau Glynllifon

Mewn seremoni a gynhaliodd Lantra i wobrwyo Dysgwyr y Flwyddyn 2014 ym maes Diwydiannau'r Tir, enillodd un o fyfyrwyr Glynllifon, sef Huw Milwyn Lewis, y categori 'Rheoli'r Tir a Chynhyrchu'.



Derbyniodd tri o fyfyrwyr Glynllifon, Mark Young, Kai Alcock a Cai Williams, wobrau gan y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol (RFS).

Derbyniodd Mark, sy'n fyfyriwr hŷn, Darian yr RFS – anrhydedd a roddir i'r myfyriwr Coedwigaeth gorau yn rhanbarth y Gogledd Orllewin. Derbyniodd Kai a Cai Ddyfarniadau'r RFS, sef llawlif yr un o wneuthuriad Silky Fox, yn ogystal ag aelodaeth blwyddyn o'r RFS.

## Glynllifon Successes

Glynllifon student Huw Milwyn Lewis won the 'Land Management and Production Young Learner of the Year' category at Lantra's 2014 Land-based Learner of the Year Awards.



© Les Starling

Three Glynllifon students, Mark Young, Kai Alcock and Cai Williams, won awards from the Royal Forestry Society (RFS).

Mark, a mature student, received the Royal Forestry Society Shield, an honour which is presented to the best forestry student in the North Wales Division. Kai and Cai both received RFS Silky Fox Handsaw Awards, winning a handsaw each and a year's membership to the RFS.





## Ysgoloriaethau

Derbyniodd Emily May Boyman, o gampws Pwllheli, Ysgoloriaeth William Salesbury, sy'n werth £5,000, gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ynghyd ag Ysgoloriaeth Deilyngdod arall werth £3,000 gan Brifysgol Bangor.

Derbyniodd nifer o fyfyrwyr eraill o Goleg Meirion-Dwyfor dros £10,000 mewn ysgoloriaethau ar gyfer Medi 2015 wedi iddynt sefyll arholiadau Prifysgolion Bangor ac Aberystwyth.

Derbyniodd William Thomas o gampws Pwllheli Ysgoloriaeth Evan Morgan, sef £3000 dros gyfnod o dair blynedd. Dyfarnwyd gwobrau teilyngdod o £1000 yr un ar gyfer blwyddyn gyntaf eu cwrs prifysgol i Awen Jones, Ffion Haf Jones, Dafydd Evans Ellis, Osian Pyrs Hughes, Lowri Wyn Jones, Sallie-Ann Roberts ac Alexander David Williams.

## Scholarships

Emily May Boyman from the Pwllheli campus was awarded the Coleg Cymraeg Cenedlaethol William Salesbury Scholarship, worth £5,000 and a further £3,000 Merit Scholarship from Bangor University.

A number of other Coleg Merion-Dwyfor students were awarded £10,000 in university scholarships for September 2015, after sitting exams for both Bangor and Aberystwyth Universities.

William Thomas from the Pwllheli campus was awarded the Evan Morgan Scholarship award, receiving £3000 over a three year period. Awen Jones, Ffion Haf Thomas, Dafydd Evans Ellis, Osian Pyrs Hughes, Lowri Wyn Jones, Sallie-Ann Roberts and Alexander David Williams were awarded £1000 Merit awards for the first year of their study.

## X Factor Cymru

Enillodd Suleiman Atta, 20 oed, sy'n dilyn cwrs Technoleg Cerdd yng Ngholeg Llandrillo, fersiwn Cymru o'r X Factor. Cipiodd Suleiman y wobr gyntaf gan guro 21 arall yn rownd derfynol y Welsh Factor, cystadleuaeth dalentau fwyaf Cymru, a gynhaliwyd yn Theatr y Pafiliwn Y Rhyl o flaen cannoedd o gefnogwyr brwd.

## Welsh X Factor

Coleg Llandrillo Music Technology student, 20 year old Suleiman Atta, won the Welsh version of the X Factor. Suleiman scooped the first prize against 21 other finalists at Welsh Factor, Wales' largest talent competition, which was held at the Pavilion Theatre in Rhyl in front of hundreds of fans with a passion for new talent.





## Llwyddo yn y Fagloriaeth Ryngwladol

Llwyddodd pob un o fyfyrwyr y Fagloriaeth Ryngwladol yng Ngholeg Llandrillo i ennill diploma llawn yn 2014/15. Roedd graddfa llwyddo'r myfyrwyr yn llawer uwch na'r cyfartaledd byd-eang, sydd wedi aros yn gyson ar oddeutu 80% dros y 30 mlynedd ddiwethaf. Dyma'r pumed tro ar hugain yn olynol i'r coleg guro'r cyfartaledd byd-eang.

## International Baccalaureate Success

100% of Coleg Llandrillo's International Baccalaureate (IB) students achieved the full diploma in 2014/15. The pass rate achieved by the students massively outstripped the world average pass rate, which has remained consistent over the past 30 years at around 80%. This was the 25th consecutive year that the college's pass rates were higher than the world average.



## Llwyddiannau ym maes Celf

Roedd Sïan Astley, sydd ar drydedd flwyddyn y cwrs Celfyddyd Gain, yn un o ddim ond 37 artist (a ddewiswyd o blith 1,600 cais o bob cwr o'r Deyrnas Unedig) i gael lle yn yr arddangosfa deithiol The Bloomberg New Contemporaries 2015.

## Art Success

Third year Fine Art Student Sïan Astley was one of just 37 new artists (selected from over 1,600 submissions throughout the UK) to be awarded a place in the Bloomberg New Contemporaries 2015 touring Exhibition.



## Cystadleuaeth Ysgrifennu Ryngwladol

Enillodd Lois Llywelyn Williams, myfyrwraig yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, y wobr gyntaf am ei barddoniaeth mewn cystadleuaeth ysgrifennu ryngwladol o'r enw 'Prologue to an Adventure' a ysbrydolwyd gan Dylan Thomas ac a gynhelir gan Llenyddiaeth Cymru dan nawdd Llywodraeth Cymru. Cyfres o ddwy gerdd Gymraeg oedd ymgais fuddugol Lois yn y categori i rai 16-18 oed.

## International Writing Competition

Coleg Meirion-Dwyfor student Lois Llywelyn Williams won first prize for her poetry in a Dylan Thomas-inspired international writing competition called 'Prologue to an Adventure' which was run by the Welsh-government funded Literature Wales. Lois' winning entry was a series of two poems which she submitted in the Welsh language 16-18 year old category.

## Olympiadau Gwyddoniaeth Prydain

Dyfarnwyd medalau efydd i'r myfyrwyr Lefel A o Chweched y Rhyl, Amber de Meyer a Hettie Wellington, a derbyniodd Amy Morris gymeradwyaeth yng nghystadleuaeth Olympiad Cemeg Prydain 2014-15. Cymerodd miloedd o fyfyrwyr o golegau ac ysgolion o bob cwr o Brydain ran yn y gystadleuaeth, a drefnir gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

## National Science Olympiads

Rhyl Sixth A-level students Amber de Meyer and Hettie Wellington were awarded bronze medals, and Amy Morris was awarded a commendation at the British Chemistry Olympiad 2014-2015 competition. Thousands of chemistry students from schools and colleges throughout the UK took part in the competition, which is organised by the Royal Society of Chemistry.





## Llwyddiannau ym maes Arlwyo

Cipiodd Hayley Roberts, sy’n dilyn cwrs Addurno Cacennau, y wobr aur yn y gystadleuaeth ‘Cacen Cymru’ a’r wobr arian yn y gystadleuaeth fyd-enwog ‘Cake International’ am gacen a seiliwyd ar fôr-forwyn Disney.

Enillodd myfyrwyr Lletygarwch ac Arlwyo Coleg Llandrillo fedal arian yng nghystadleuaeth Gwobrau Ciniawa Myfyrwyr Lletygarwch Cymru a gynhaliwyd yn y Drenewydd fis Gorffennaf.

Bu’r tîm yn ymgiprys yn erbyn naw coleg arall o bob cwr o Gymru, gyda phob un ohonynt yn creu pryd tri chwrs gan ddefnyddio cynnyrch lleol o’u hardal eu hunain.



## Hospitality Successes

Cake Decoration student Hayley Roberts scooped gold in the ‘Cake Cymru’ competition and silver in the world-renowned ‘Cake International’ competition for her Disney-inspired ‘Little Mermaid’ cake.

Coleg Llandrillo’s Hospitality and Catering students won the silver medal in the all-Wales Hospitality Students Dining Award competition, which was held in Newtown in July.

The team took on nine other college teams from across Wales, who all had to produce a three-course meal using locally sourced produce from their area.

## Undeb y Myfyrwyr yn Cipio Gwobr Genedlaethol

Daeth ymgyrch egnïol Undeb Myfyrwyr Coleg Llandrillo, a wnaeth ddefnydd o’r cyfryngau cymdeithasol, y wasg, arolygon ar-lein a’r cyngor ieuenctid lleol, i’r brig yn y categori “Ymgyrchoedd” yng Ngwobrau Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru. Barnwyd bod yr ymgyrch yn ffordd hynod effeithiol o godi ymwybyddiaeth o bolisi arfaethedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i godi tâl am gludiant ar rai sydd dros 16 oed. Hyd yn hyn, ni chyflwynwyd y taliadau.

## Student Union Scoops National Award

A vigorous campaign by Coleg Llandrillo’s Student Union, which utilised social media, press coverage, online surveys and the engagement of the local youth council, won the ‘Campaigns’ category at the National Union of Students (NUS) Wales Awards . The campaign was deemed as an extremely effective way of raising awareness of Conwy County Borough Council’s proposed policy to introduce charges for post-16 transport. To date, the charges have not been introduced.







# Llwyddiannau ar y Maes Chwarae

Cynrychiolodd myfyrwyr o'n hadrannau chwaraeon Gymru a/neu Brydain mewn sawl camp, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, athletau, sboncen a phêl fasged i rai mewn cadeiriau olwyn.

# Sports Successes

Sports students represented Wales and/or the UK in several disciplines, including rugby, football, athletics, squash and wheelchair basketball.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rygbi Dynion**<br>**Men's Rugby** | **Coleg Llandrillo** | Ianto Pari | Rhun Williams |
| **Rygbi Merched**<br>**Women's Rugby** | **Coleg Meirion-Dwyfor** | Morfudd Ifans | |
| **Pêl-droed Dynion**<br>**Men's football** | **Coleg Llandrillo** | Patrick Hinchcliffe<br>Adam Hodgson | Jack Roberts |
| | **Coleg Meirion-Dwyfor** | Will Hughes<br>Gethin Trenholme<br>Iwan Griffiths<br>Dafydd G Jones<br>Llion Owen | Osian Owen<br>Rob Owen<br>Dan Roberts<br>Joe Jones<br>Llyr Evans |
| | **Coleg Menai** | Nathan Joseph Williams<br>Iolo Rhys Hughes<br>Ifan Emlyn Jones<br>Adam Paul Pritchard | Jamie Paul Roberts<br>Shaun Callum Cavanagh<br>Gethin Roberts<br>Cai Daniel Owen |
| **Pêl-droed Merched**<br>**Women's Football** | **Coleg Menai** | Amy Lynne Roberts<br>Ffion Mair Roberts | Charley Louise Smith<br>Nia Wyn Jones |
| **Hoci Merched**<br>**Women's Hockey** | **Coleg Meirion-Dwyfor** | Sian Rosewarne<br>Emily Hughes<br>Tesni Roberts<br>Ffion Williams<br>Magi Jones<br>Ela Jones<br>Indeg Owen | Lleucu Williams<br>Lisa Griffiths<br>Mared Hughes<br>Elen Jones<br>Megan Pilling<br>Lowri Jones |
| **Nofio Dynion**<br>**Men's Swimming** | **Coleg Meirion-Dwyfor** | Cynan Sharp | |
| **Nofio Merched**<br>**Women's Swimming** | **Coleg Meirion-Dwyfor** | Rebecca Hughes | |
| **Sboncen Dynion**<br>**Men's Squash** | **Coleg Llandrillo** | Emyr Evans<br>George Thomas | |
| **Sboncen Merched**<br>**Women's Squash** | **Coleg Llandrillo** | Elin Harlow | |
| **Athletau Dynion**<br>**Men's Athletics** | **Coleg Menai** | Iwan Sion Parry | |
| **Athletau Merched**<br>**Women's Athletics** | **Coleg Llandrillo** | Georgina Outten | |
| **Pêl-fasged i rai mewn Cadeiriau Olwyn**<br>**Wheelchair Basketball** | **Coleg Llandrillo** | Rosie Williams | |
| **Traws Gwlad**<br>**Cross Country** | **Coleg Menai** | Andrew Morris Jones<br>Tom Mahoney | Elizabeth Mary Lunn |
| **Golff**<br>**Golf** | **Coleg Menai** | Darren Owen | |
| **Codi Pwysau (Prydain Fawr)**<br>**Weight Lifting (Great Britain)** | **Coleg Menai** | Samuel Paul Henderson | |



# Ffeithiau, Ystadegau a Chyllid
# Facts, Figures & Finance

## Lefel A

**Roedd canlyniadau Lefel A Grŵp Llandrillo Menai'n sylweddol uwch na'r cymaryddion cenedlaethol yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.**

Yn 2014/15, cynyddodd cyfradd lwyddo'r Grŵp yn yr arholiadau Lefel A i 98.9% (Cymaryddion Cenedlaethol: Y Deyrnas Unedig 98.1%, Cymru 97.3%). Roedd hyn yn cymharu â chyfradd lwyddo o 98% (Cymarebau Cenedlaethol: Y Deyrnas Unedig 98%, Cymru 97.5%) yn 2013/14.

Safodd 655 o fyfyrwyr (648 myfyriwr llawn amser) 1,784 arholiad ar 6 champws gwahanol. Cyflwynwyd 115 o gyrsiau Lefel A, ac mewn 109 o'r cyrsiau hynny llwyddodd pob myfyriwr i gael graddau A*-E.

## A Levels

**Grŵp Llandrillo Menai's A Level results were significantly above both Welsh and UK national comparators.**

A Level results for the Grŵp showed an increase in the pass rate to 98.9% (National Comparators: UK 98.1% and Wales 97.3%) in 2014/15. This compared with a pass rate of 98% (National Comparator: UK 98% and Wales 97.5%) in 2013/14.

655 students (648 full-time) sat a total of 1,784 papers at 6 different campuses. 115 A-level courses were delivered, with 109 courses recording 100% pass at grades A*-E.

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| | A* - E | A* - E |
| Grŵp Llandrillo Menai | 98.9% | 98% |
| Cyfartaledd y Deyrnas Unedig<br>UK Average | 98.1% | 98% |
| Cyfartaledd Cymru<br>Wales Average | 97.3% | 97.5% |

## Cyflawniad, Cyrhaeddiad a Chwblhau'n Llwyddiannus

**Dyma oedd y dangosyddion perfformiad allweddol o ran cyflawniad, cyrhaeddiad a chwblhau'n llwyddiannus:**

## Completion, Attainment and Successful Completion

**The Completion, Attainment and Successful Completion key performance indicators were as follows:**

| | Addysg Bellach a Llwybrau at Brentisiaethau<br>Further Education & Pathways to Apprenticeships | | |
|---|---|---|---|
| | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 |
| Cyflawniad<br>Completion | 92% | 92% | 93% |
| Cyrhaeddiad<br>Attainment | 95% | 93% | 92% |
| Cwblhau'n Llwyddiannus<br>Successful Completion | 87% | 85% | 84% |

# Canlyniadau Arolwg
# Survey Results

## Yn Arolwg Llais y Dysgwr Cymru a gynhaliodd Ipsos Mori yn 2015, cymerodd 61,894 o fyfyrwyr o bob cwr o Gymru ran, gan roi cyfle i ni feincnodi yn erbyn pob coleg arall yn y sector.

Roedd yr arolwg yn cynnwys dysgwyr Addysg Bellach (34,679), rhai sy'n dysgu yn y gweithle, oedolion sy'n dysgu yn y gymuned, a rhai sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Cymerodd cyfanswm o 4,268 myfyriwr ran o Grŵp Llandrillo Menai.

Dangosodd y canlyniadau fod myfyrwyr o dri choleg y Grŵp ymhlith yr hapusaf yn y wlad, gyda'r Grŵp yn sgorio'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ym mhob un o gwestiynau'r arolwg.

O blith y myfyrwyr Addysg Bellach, mynegodd 81% eu bod yn fodlon iawn â'u darpariaeth, a nododd nifer sylweddol, sef 94%, o'r rhai sy'n dysgu yn y gweithle fod eu cyrsiau'n 'Dda' neu'n 'Dda Iawn'.






## In the Learner Voice Wales survey carried out at the beginning of 2015 by Ipsos Mori, 61,894 students across Wales took part, providing an opportunity to benchmark against every other college in the sector.

The survey included learners in Further Education (34,679), Work-based Learning, Adult Community Learning and Welsh for Adults. A total of 4,268 students took part from Grŵp Llandrillo Menai.

The results showed that students from the Grŵp's three colleges were amongst the happiest in the country, with the Grŵp scoring well above average for every single question in the survey.

Among Further Education students, 81% indicated that they were highly satisfied with their provision, whilst an impressive 94% of Work-based learners rated their courses as 'Good' or 'Very Good'.






# Y Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfunol am y Flwyddyn yn Diweddu 31 Gorffennaf 2015
# Consolidated Income & Expenditure Account for the Year Ended 31 July 2015

| Incwm<br>Income | 2015 (£'000)<br>Gweithgareddau Cyffredin<br>Ordinary Activities | 2015 (£'000)<br>Eitem Eithriadol (gweler Nodyn 1)<br>Exceptional item (see Note 1) | 2015 (£'000) | 2014 (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Grantiau Cyrff Cyllido<br>Funding Body Grants | 58, 281 | - | 58,281 | 59,464 |
| Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysgol<br>Tuition Fees & Education Contracts | 6,493 | - | 6,493 | 5,936 |
| Incwm Arall<br>Other Income | 8,982 | - | 8,982 | 10,197 |
| Incwm o Fuddsoddiadau<br>Investment Income | 550 | - | 550 | 333 |
| **Cyfanswm yr Incwm<br>Total Income** | **74,306** | - | **74,306** | **75,930** |

| Gwariant<br>Expenditure | 2015 (£'000) | 2015 (£'000) | 2015 (£'000) | 2014 (£'000) |
|---|---|---|---|---|
| Costau Staffio<br>Staff Costs | 45,520 | - | 45,520 | 47,840 |
| Eitem Eithriadol<br>Exceptional Item | - | 613 | 613 | 1,122 |
| Treuliau Gweithredol Eraill<br>Other Operating Expenses | 21,483 | - | 21,483 | 22,765 |
| Dibrisiant<br>Depreciation | 4,417 | - | 4,417 | 4,129 |
| Llog a Chostau Ariannol Eraill<br>Interest and Other Finance Costs | 195 | - | 195 | 224 |
| **Cyfanswm y Gwariant<br>Total Expenditure** | **71,615** | **613** | **72,228** | **76,080** |
| **Gwarged ar y gweithrediadau sy'n parhau, cyn yr eitem eithriadol a heb FRS17<br>Surplus on continuing operations before exceptional item and without FRS17** | **2,691** | **(613)** | **2,078** | **(150)** |
| **Addasiad FRS17 (gweler Nodyn 2)<br>FRS17 adjustment (see Note 2)** | **(620)** | **-** | **(620)** | **(637)** |
| **(Colled)/gwarged am y flwyddyn, a gadwyd yn y cronfeydd cyffredinol<br>(Loss)/surplus for the year retained within general reserves** | **2,071** | **(613)** | **1,458** | **(787)** |

**Nodiadau**

1. Mae'r eitem eithriadol yn ymwneud â'r prosesau diswyddo gwirfoddol a ddigwyddodd yn ystod 2014 a 2015.

2. Addasiadau a wnaed wrth brisio pensiynau yw'r gwariant FRS17 uchod ac, i raddau helaeth, maent y tu allan i reolaeth rheolwyr y Grŵp.


**Notes**

1. The exceptional item relates to voluntary redundancy processes which took place during 2014 and 2015.

2. The expenditure above in respect of FRS17 are pension valuation adjustments largely outside of Grŵp management control.


# Incwm a Gwariant
# Income & Expenditure

## Incwm
## Income



| 2015 | 2014 | |
|---|---|---|
| £43,168,000 | £43,121,000 | Grant rheolaidd AdAS<br>DfES recurrent grant |
| £9,662,000 | £10,946,000 | Grant Dysgu Seiliedig ar Waith<br>Work-based Learning grant |
| £5,042,000 | £4,975,000 | Incwm o grantiau eraill AdAS<br>Other DfES grant income |
| £5,918,000 | £5,176,000 | Ffioedd dysgu<br>Tuition fees |
| £409,000 | £422,000 | Grant rheolaidd CCAUC<br>HEFCW recurrent grant |
| £575,000 | £760,000 | Incwm o fasnachfreinio<br>Franchise income |
| £1,704,000 | £3,047,000 | Cyllid Ewropeaidd<br>European Funding |
| £1,004,000 | £1,027,000 | Incwm arlwyo<br>Catering income |
| £673,000 | £704,000 | Incwm o weithgareddau ffermio<br>Farming activities income |
| £1,136,000 | £1,319,000 | Incwm o grantiau eraill<br>Other grant income |
| £4,465,000 | £4,100,000 | Incwm arall<br>Other income |
| £550,000 | £333,000 | Incwm o fuddsoddiadau<br>Investment income |
| **£74,306,000** | **£75,930,000** | |

## Gwariant
## Expenditure



| 2015 | 2014 | |
|---|---|---|
| £45,247,000 | £47,605,000 | Costau staffio<br>Staff costs |
| £1,506,000 | £1,994,000 | Costau ailstrwythuro, ymddeol a FRS17<br>Restructuring, retirement and FRS17 costs |
| £8,754,000 | £10,073,000 | Costau addysgu nad ydynt yn ymwneud â thâl<br>Teaching non-pay costs |
| £4,770,000 | £4,742,000 | Costau gweinyddu a chostau cyffredinol<br>Administration and general costs |
| £5,713,000 | £5,588,000 | Costau mewn perthynas ag adeiladau<br>Premises costs |
| £2,246,000 | £2,362,000 | Treuliau eraill<br>Other expenses |
| £4,417,000 | £4,129,000 | Dibrisiant<br>Depreciation |
| £195,000 | £224,000 | Llog a chostau ariannol eraill<br>Interest and other finance costs |
| **£72,848,000** | **£76,717,000** | |

**Coleg Llandrillo**
Llandrillo-yn-Rhos /
Rhos-on-Sea
Conwy LL28 4HZ
01492 546 666

**Coleg Meirion-Dwyfor**
Dolgellau
Gwynedd LL40 2SW
01341 422 827

**Coleg Menai**
Bangor
Gwynedd LL57 2TP
01248 370 125